ROL Y SEICOLEGYDD ADDYSGOL

Mae'r daflen hon yn amlinellu rol, cyfrifoldebau a hyfforddiant seicolegwyr addysgol.

Yn Ionawr 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen dan y teitl 'Plant a Phobl Ifanc: Hawliau I Weithredu'. Yn y Rhagair mae'r Gweinidogion Addysg a Iechyd yn datgan eu 'huchelgais I bob plentyn', y bydd 'pawb yn gallu cyflawni eu potensial'. Deallant, fodd bynnag, bod rhai plant yn gwynebu problemau anoddach a bode u 'helpu nhw yn flaenoriaeth inni'.

Fel canlyniad I'w hyfforddiant, sgiliau a gwybodaeth, mae seicolegwyr addysgol mewn safle da I gefnogi plant a phobl ifanc sydd a phroblemau ysgol mwy cymhleth.

CYMWYSTERAU

Mae gan Seicolegydd Addysgol fel arfer, y cymwysterau canlynol:

1. Gradd cychwynol mewn seicoleg;

2. Maent yn oedolion gydag o leiaf dwy flynedd o brofiad gweithio gyda phlant neu bobl ieuanc;

3. Wedi hyfforddi ar gwrs arbenigol mewn seicoleg addysgol;

4. Yn gymwys ar gyfer aelodaeth Siartredig o'r Gymdeithas Seicolegol Brydeinig ar ol cyflawni ymarfer gyda goruchwyliath.
   practice.

GRWPIAU CLEIENT

Mae Seicolegydd Addysgol yn aml yn gweithio gyda'r pobl canlynol;-

- Plant, Plant Mewn Gofal a phobl ifanc;
- Rhieni a Gofalwyr;
- Pobl proffesiynol eraill yn ymwneud a gofal plant a phobl ifanc yn cynnwys gwasanaethau meddygol a chymdeithasol yn ogystal ag aelodau o gyrff gwirfoddol.

GWEITHGAREDDAU

Bydd Seicolegwyr Addysgol weithiau yn ymwneud a'r canlynol:

- ❑ Gweithio gyda phlant a phobl ifanc rhwng 2-19 sydd ag anawsterau dysgyu, emosiynnol, ymddygiadol neu iechyd meddwl;
- ❑ Cefnogi ysgolion yn dyrchafu cyrhaeddiad disgyblion a hyrwyddo effeithiolrwydd ysgolion;
- ❑ Gweithio gyda rhieni i helpu datrys Anawsterau eu plant yn yr ysgol a'r cartef;
- ❑ Cyflenwi hyfforddiant i athrawon, Cynorthwywyr Dysgu ac eraill ar bob agwedd o ddatblygiad plant;
- ❑ Ymchwillio I wella ein gwybodaeth o anawsterau plant parthed dysgu ac ymddygiad a'r dulliau o'u lliniaru;
- ❑ Cyfrannu at Asesiad Statudol o dan Ddeddf Addysg 1996;
- ❑ Monitro cynnydd plant gyda Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig;
- ❑ Cynghori ar bolisiau ac ymarfer addysg Arbennig.

aep

cymdeithas seicolegwyr addysgol

Cymru/Wales

SEICOLEGWYR ADDYSGOL

CYFLWYNIAD BYR

Ffon: 0191 3849512
Ffacs: 0191 3865287
Ebost: sao@aep.org.uk